

# Ar Goll ar ôl Gofal: Adroddiad Monitro 2013



<b>04</b>	<b>Cyflwyniad</b>
<b>06</b>	<b>Methodoleg</b>
<b>08</b>	<b>Barn y Comisiynydd</b>
<b>10</b>	<b>Gwasanaethau Cymdeithasol</b>
<b>16</b>	<b>Addysg</b>
<b>22</b>	<b>Tai</b>
<b>28</b>	<b>Byw'n Annibynnol</b>
<b>36</b>	<b>Iechyd</b>
<b>40</b>	<b>Llywodraeth Cymru ac AGGCC</b>
<b>44</b>	<b>Casgliad</b>

# Cyflwyniad

**Yn 2011 fe gyhoeddais i “Ar Goll ar ôl Gofal”, adroddiad oedd yn manylu ar brofiadau pobl ifanc oedd yn paratoi i adael gofal a’r pryderon a fynegwyd ganddynt ynghylch ystod eang o faterion oedd yn effeithio ar eu hawliau a’u lles wrth iddyn nhw symud i annibyniaeth. Er i’m hadroddiad amlygu enghreifftiau pwysig o arfer da yng nghyswllt sut roedd gweithwyr proffesiynol, ymarferwyr a gwasanaethau lleol yn gweithio gyda phobl ifanc i’w helpu gyda’r pontio hwn, bu hefyd yn nodi nifer o ddiffygion a oedd yn gwneud y pontio hwn yn anodd ac yn heriol i bobl ifanc.**

Doedd pobl ifanc ddim bob amser yn ymwybodol o’r gwasanaethau oedd ar gael iddynt, ac felly doedden nhw ddim bob amser yn eu defnyddio. Roedden nhw’n aneglur ynghylch gwahanol rolau’r gweithwyr proffesiynol oedd yn dod i gysylltiad â nhw, er gwaethaf y ffaith eu bod nhw’n ystyried y perthnasoedd hynny’n bwysig, ac roedden nhw’n teimlo bod y cynllunio ar gyfer eu symudiad at annibyniaeth yn aml yn annigonol ac yn cael ei ruthro. Teimlai pobl ifanc hefyd nad oedden nhw’n cael gwrandawriad digonol, nac yn destun ymgynghori ynghylch y penderfyniadau pwysig oedd yn cael eu gwneud am eu bywyd wrth iddyn nhw bontio o ofal i annibyniaeth.

Fe wnaeth fy adroddiad nifer o awgrymiadau ar gyfer gwelliannau gwasanaeth a fyddai’n ymateb i’r materion roedd pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol wedi’u codi. Mae’r adroddiad hwn yn manylu ar y cynnydd a wnaed gan awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i fynd i’r afael â’r gwelliannau hynny i wasanaethau. Bydd yn rhan o ddeialog barhaus rwyf am ei sefydlu gyda’r llywodraeth, awdurdodau lleol a gweithwyr proffesiynol ynghylch parhau i wella’r canlyniadau i bobl ifanc sy’n pontio o ofal i annibyniaeth.

**Keith Towler,  
Comisiynydd Plant Cymru**

# Methodoleg

**Fe wnes i ofyn i bob un o'r 22 Awdurdod Lleol lenwi holiadur ynghylch y gwelliannau gwasanaeth a nodwyd yn Ar Goll ar ôl Gofal. Anfonwyd y llythyron at y Prif Swyddog Gweithredol a'u copio i Benaethiaid Gwasanaethau Plant ym mis Rhagfyr 2012, gan ofyn am ymateb erbyn mis Mawrth 2013. Ymatebodd pob un o'r 22 awdurdod i'r holiadur.**

Anfonwyd holiaduron hefyd at Lywodraeth Cymru, AGGCC a Byrddau Iechyd Lleol ynghylch y gwelliannau gwasanaeth roedd disgwyl iddynt adrodd amdanynt. Ymatebodd Llywodraeth Cymru, AGGCC, a phedwar o'r saith bwrdd iechyd.

Ni wnaed unrhyw waith dilynol ar yr holiaduron a ddychwelwyd, gan fy mod yn bwriadu defnyddio canfyddiadau'r ymarferiad monitro hwn i gynnal deialog bellach gyda'r rhanddeiliaid allweddol ynghylch y materion a godwyd.

Mae'r adroddiad monitro, felly, wedi'i seilio ar yr wybodaeth a ddychwelwyd yn ysgrifenedig gan yr amrywiol ymatebwyr. Rhoddodd rhai ymatebwyr wybodaeth fanylach nag eraill i mi, ac felly gall fod iddynt le mwy amlwg yn yr enghreifftiau o arfer da y cyfeirir atynt yn yr adroddiad.

# Barn y Comisiynydd

**Rwyf wedi cael fy nghalonogi i glywed sut mae gwaith a gwasanaethau i bobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal ac sy'n nesáu at annibyniaeth wedi symud ymlaen. Dywedodd rhai ymatebwyr wrthyf am wasanaethau a darpariaeth sydd wedi'u gwreiddio'n dda, tra bod eraill wedi adolygu eu gwasanaethau'n fwy diweddar ac wedi dweud wrthyf fi am ddatblygu cynllun gweithredu "Ar Goll ar ôl Gofal" ar ôl monitro a gwerthuso'u gwasanaeth yn erbyn y gwelliannau gwasanaethau a gyflwynwyd yn "Ar Goll ar ôl Gofal".**

Cefais fy nghalonogi'n arbennig gan un awdurdod lleol a oedd, yn ogystal ag anfon eu hymateb swyddogol, hefyd wedi gweithio gyda phobl ifanc yn eu hardal leol i weld a oedden nhw'n teimlo mai dyna oedd y sefyllfa wirioneddol ar lawr gwlad. Bu'r awdurdod hwn yn rhannu dadansoddiad y bobl ifanc gyda mi, a'u cynllun dilynol i wella pethau lle nad oedd y ddau ymateb yn debyg. Mae hyn yn rhywbeth yr hoffwn i bob awdurdod lleol ei ystyried yn y dyfodol. Mae'r arfer hwn yn amlwg yn arwydd o awdurdod sy'n barod i wrando a gweithredu ar sail barn plant a phobl ifanc wrth lunio'u gwasanaeth.

Byddaf hefyd yn parhau i ofyn i bobl ifanc am adborth ynghylch eu profiad o symud o ofal i annibyniaeth. Yn "Ar Goll ar ôl Gofal" fe wnes i ymrwymo i sefydlu fforwm genedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal ac wrth adael gofal a fyddai'n eu galluogi i gwrdd a rhannu eu profiadau. Ym mis Gorffennaf eleni, cynhaliwyd yr ail o'r fforymau hynny, a chafodd gefnogaeth dda gan blant a phobl ifanc ac ymarferwyr o bob rhan o Gymru. Mae'r digwyddiad wedi bod yn un poblogaidd iawn gyda phobl ifanc, a bu rhai ohonynt yn rhannu safbwyntiau diddorol iawn am eu bywyd mewn gofal.

Rwy'n gobeithio y bydd yr adroddiad hwn, yn ogystal â digwyddiadau yn y dyfodol, yn rhoi blas ar gyflwr cyfredol gwasanaethau ôl-16 yng Nghymru, ac yn gweithredu fel catalydd i ymarferwyr a rheolwyr rannu enghreifftiau pellach o ymarfer a datblygu gwasanaethau.

# Gwasanaethau Cymdeithasol

Nododd “Ar Goll ar ôl Gofal” nifer o welliannau gwasanaeth i awdurdodau lleol eu rhoi ar waith. Roedd pobl ifanc yn cael bod y broses o adael gofal yn frawychus, a doedden nhw ddim yn ymwybodol o’u hawliau a’r pethau y dylent eu derbyn wrth adael gofal. Fe wnaethon nhw bwysleisio’n arbennig bwysigrwydd cael perthynas waith dda gyda’u gweithiwr cymdeithasol, eu hymgyngorydd personol a staff cymorth eraill, gan nodi’r angen am gynllun llwybr clir a pherthnasol.

## Hawliau a Phethau y Dylid eu Derbyn

Er mwyn nodi ac ymateb yn briodol i hawliau'r rhai oedd yn gadael gofal, fe gynigiais, fel rhan o fframwaith adrodd blynyddol cynghorau, y dylai awdurdodau lleol gynnal hunanasesiad o'r gwasanaethau i bobl ifanc oedd yn symud ymlaen i fyw'n annibynnol, gan roi cyfle i'r bobl ifanc roi adborth ar eu profiadau personol, a sicrhau bod y pwyllgor craffu perthnasol yn cynwys rhai oedd yn gadael gofal yn eu blaenraglen waith gyhoeddedig (gwelliannau gwasanaeth 6 a 9).

Er i 20 awdurdod lleol adrodd eu bod yn ystyried hawliau pobl ifanc oedd yn gadael gofal a'r pethau y dylent eu derbyn fel rhan o'u fframwaith adrodd, ni chefais lawer o fanylion ynghylch union ystyr hynny, ac fe'm gadawyd yn aneglur ynghylch ansawdd asesiadau o'r fath.

Serch hynny, disgrifiodd rhai awdurdodau lleol sut roedden nhw'n gweithio'n rhagweithiol ar asesu anghenion pobl ifanc oedd yn gadael gofal at y dyfodol, er mwyn cynllunio'n well a darparu gwasanaethau priodol yn y dyfodol, gan gynnwys tystiolaeth o ymgynghori uniongyrchol â phobl ifanc er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau'n ymateb i'w hanghenion. Er enghraifft:

Dyweddodd **Powys** wrthym ni fod Fframwaith Adroddiadau Blynyddol y Cyngor yn cynnwys gwybodaeth am bobl ifanc yn pontio i annibyniaeth, gydag adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth unigol, a'u bod yn cynnwys adborth gan bobl ifanc yn y cyfarfod rhianta corfforaethol, er mwyn sicrhau bod modd rhoi ystyriaeth briodol i faterion sy'n ymwneud â chynllunio gwasanaethau yn y dyfodol.

Dyweddodd **Castell-nedd Port Talbot** eu bod yn defnyddio'r system gwybodaeth i reolwyr i lunio gwasanaethau fel eu bod yn ymateb i'r anghenion a nodwyd gan y rhai sy'n gadael gofal. Er enghraifft, daeth eu dadansoddiad diweddar o hyd i fwch ym maes llety i'r rhai sy'n gadael gofal, ac yn sgîl hynny mae'r fîm comisiynu wedi gweithio i ddatblygu cynllun ychwanegol llety â chymorth. Mae'r system gwybodaeth i reolwyr yn dadansoddi data ynghylch Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant, Iechyd, a Chadw mewn Cysylltiad, ac mae'n cael ei ddatblygu'n barhaus er mwyn canfod anghenion sydd heb eu diwallu.

Cefais fy nghalonogi gan ymrwymiad cadarn ymhlith rhai aelodau etholedig a rheolwyr i ymgorffori canfyddiadau "Ar Goll ar ôl Gofal" i'w llifoedd gwaith, er mwyn ceisio gwella'r cyfleoedd i'r rhai sy'n gadael gofal yn eu hardaloedd. Er enghraifft:

Dyweddodd **Abertawe** wrthym fod eu Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi ystyried "Ar Goll ar ôl Gofal" ac wedi cynhyrchu ei adroddiad ei hun - "Beth yw'r Ffordd Orau o Gefnogi'r Rhai sy'n Gadael Gofal yn Abertawe" (Mawrth 2012) - er mwyn sbarduno gwelliannau. Mae'r Fforwm Rhianta Corfforaethol hefyd wedi ymrwymo i adolygu cynnydd ar yr holl flaenoriaethau gwella gwasanaeth a amlygwyd gan "Ar Goll ar ôl Gofal".

Er mwyn helpu i gynyddu ymwybyddiaeth pobl ifanc o'u hawliau a'r pethau y dylent eu derbyn fe awgrymais y dylai Aelodau Arweiniol a Phenaeithaid Gwasanaethau Plant a Theuluoedd sicrhau bod copi o "Fy Nghynllunydd" yn cael ei roi i bob person ifanc ar eu pen-blwydd yn 15, a sicrhau bod "Fy Nghynllunydd" ar gael i bob person ifanc sy'n symud ymlaen i fyw'n annibynnol ar wefan yr awdurdod lleol (gwelliant gwasanaeth 12).

Fe wnes i ddatblygu "Fy Nghynllunydd" mewn ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc, ac mae'n cynnwys rhestr wirio o hawliau pobl ifanc sy'n gadael gofal a'r pethau y dylent eu derbyn. Er nad oedd dau awdurdod lleol yn cytuno â ni y byddai dosbarthu "Fy Nghynllunydd" yn helpu plant oedd yn derbyn gofal yn eu hardaloedd, roedd yr 20 awdurdod arall naill ai'n gweithio tuag at rannu'r adnodd gyda phobl ifanc, neu eisoes yn gwneud hynny. Er enghraifft:

Mae **Sir Benfro** yn darparu copïau papur o "Fy Nghynllunydd" i bobl ifanc sy'n symud ymlaen i fyw'n annibynnol, ac maen nhw wedi ailddatblygu eu gwefan gyda manylion "Fy Nghynllunydd" a rhagor o wybodaeth ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal.

Dyweddodd **Bro Morgannwg** wrthym fod "Fy Nghynllunydd" wedi derbyn cefnogaeth lawn y panel Rhianta Corfforaethol. Mae'n cael ei roi i bob person ifanc sy'n symud ymlaen i fyw'n annibynnol, ac mae dolenni i Wefan y Comisiynydd Plant a "Fy Nghynllunydd" ar wefan y cyngor, o dan yr adran 'gadael gofal yr awdurdod lleol'.

## Newid Enw'r Tîm

Dyweddod llawer o'r bobl ifanc y buon ni'n siarad â nhw yn ystod y gwaith maes ar gyfer "Ar Goll ar ôl Gofal" fod y syniad o orfod byw'n annibynnol yn "codi ofn" arnyh nhw, ac mai cyflwyniad cyntaf rhai ohonyh nhw i'r cysyniad o adael gofal oedd cwrdd â gweithiwr fîm "gadael gofal". Roedden nhw'n teimlo bod y term "gadael gofal" yn fygythiol ac yn frawychus, felly fe wnes i awgrymu newid enw'r tîm i ryw beth fel "Tîm Cymorth Gofal yn y Dyfodol" (gwelliant gwasanaeth 7).

Fe dderbynias i ymatebion eithriadol o gadarnhaol gan yr holl awdurdodau lleol, yn cytuno â rhesymeg newid yr enw. Roedd 15 eisoes yn defnyddio enw amgen, tra bod y 7 arall naill ai'n ystyried newid neu wrthi'n ymgynghori â phobl ifanc ynghylch newid.

Ymddengys mai enwau fel Llwybr 16, Rhwydwaith 16 neu'r tîm 16+ yw rhai o'r dewisiadau mwyaf poblogaidd. Dywedodd Conwy wrthym am eu Tîm Llwybr, a Sir Gaerfyrddin am eu Tîm Cam Nesaf. Ym Mhen-y-bont ceir Just @SK, ac mae'r rhain i gyd wedi'u dewis ar ôl ymgynghori â phlant a phobl ifanc.

Mae cylch gorchwyl rhai o'r tîm yn ehangach na gadael gofal, ac adlewyrchir hynny mewn enwau megis y "Tîm Cymorth Plant ac Oedolion Ifanc" yn Sir y Fflint. Dewiswyd yr enw yma gan bobl ifanc, ac mae'r fîm yn ceisio sicrhau mai'r un gweithiwr sy'n tywys y plentyn ar hyd y daith i annibyniaeth. Mae gan Sir Fynwy eu "Gwasanaeth Cefnogi Plant a Phobl Ifanc" ac mae gan Ynys Môn eu "Tîm Trefniadau Parhaol", sydd i gyd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc ar draws sbectrwm ehangach na gadael gofal yn unig.

## Perthnasoedd Cadarnhaol gyda Gweithwyr Proffesiynol

Roedd pobl ifanc wedi nodi bod perthynas waith dda gyda staff allweddol a chynlluniau llwybr clir yn hanfodol i'w lles, ac fe wnes i gynnig y dylai pawb oedd yn gadael gofal gael mynediad at ymgynghorydd personol a gweithiwr cymdeithasol, fel sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth, a bod Swyddogion Adolygu Annibynnol yn sicrhau eu bod yn cadw golwg ar adolygiadau cynllun llwybr plant perthnasol (gwelliannau gwasanaeth 13 a 28).

Cyfeirir at weithwyr proffesiynol allweddol eraill sy'n darparu cefnogaeth yn adrannau addysg a thai yr adroddiad yma.

Roeddwn yn falch, felly, o gael clywed bod 21 o awdurdodau lleol yn cynnig ymgynghorydd personol i bawb sy'n gadael gofal. Dywedodd bron yr holl awdurdodau lleol wrthym ni eu bod nhw'n cyflawni, neu'n gweithio tuag at gyflawni, eu rhwymedigaeth statudol i ddyrannu gweithiwr cymdeithasol ac ymgynghorydd personol i'r rhai oedd yn gadael gofal yn eu hardal. Er enghraifft:

Mae **Ynys Môn** yn gweithio i osgoi gormod o newid ar unwaith trwy gyflwyno ymgynghorydd personol i weithio ochr yn ochr â'r gweithiwr cymdeithasol PDG hyd at 18 oed. Mae hyn yn sicrhau cysondeb, a bod y broses bontio a chynllunio'n digwydd gyda gweithiwr cymdeithasol sy'n adnabod y person ifanc yn dda. Mae'r gweithiwr cymdeithasol gadael gofal yn dechrau gweithio ochr yn ochr â'r ymgynghorydd personol pan fydd y person ifanc yn 18.

Mae **Abertawe** yn sicrhau nad oes rhaid i neb sy'n gadael gofal aros i ymgynghorydd neu weithiwr cymdeithasol person ifanc gael ei ddyrannu, ac mae hynny'n cael ei fonitro'n fanwl. Mae prosiect Bays Barnardo's yn ddiweddar wedi cynnal ymgyrch recriwtio, gan ragweld cynnydd yn nifer y bobl ifanc a fu gynt yn berthnasol y mae angen gwasanaeth arnynt. Bellach nid oes dim gweithiwr heb gymhwyso yn y fîm PDG 14+, ac mae hynny'n golygu bod modd iddynt ddyrannu pob achos yn brydlon.

Roeddwn yn pryderu wrth glywed nifer o bobl ifanc yn dweud nad oeddent wedi cael eu cynnwys wrth lunio'u Cynllun Llwybr, ac nad oedd nhw'n gwybod beth oedd ynddo. Fe wnes i awgrymu'n gryf bod rhaid i awdurdodau lleol weithio'n agos gyda phobl ifanc i sicrhau bod y ddwy ochr yn deall pwrpas y cynllun Llwybr ac yn cyfrannu ato. Dangosodd ymatebion yr awdurdodau lleol fod y mwyafrif o awdurdodau'n ceisio mynd i'r afael ag anghysondeb cynllunio llwybrau trwy broses fonitro gadarnach. Er enghraifft:

Dyweddodd **Conwy** wrthym fod ganddynt Fframwaith Sicrhau Ansawdd ar gyfer y Tîm Llwybr, a bod yr awdurdod lleol wedi ymgynghori â phobl ifanc yn yr ardal ynghylch cynlluniau llwybr. Mae Swyddogion Adolygu Annibynnol yn monitro ansawdd y cynlluniau llwybr.

Mae **Rhondda Cynon Taf** yn dyrannu Swyddog Adolygu Annibynnol a fydd yn adolygu eu cynllunio llwybr a'u hanghenion ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal rhwng 16 ac 18 oed. Ar ôl cyrraedd 18 oed, gall y person ifanc ddewis pwy sy'n adolygu eu cynlluniau, a gofyn i'w Swyddog Adolygu Annibynnol barhau i chwarae rhan. Os nad yw'r trefniadau ar gyfer y person ifanc yn foddhaol, gellir trefnu adolygiad ychwanegol, neu gall y Swyddog Adolygu Annibynnol fynegi pryder yn unol â'r canllawiau.



# Addysg

Yn “Ar Goll ar ôl Gofal” fe nodais nad oedd pobl ifanc mewn gofal a oedd yn nesáu at fod yn annibynnol bob amser yn derbyn y gefnogaeth ymarferol ac emosiynol effeithiol yr oedd ei hangen arnynt i gyflawni eu potensial addysgol. Gallai hyn yn ei dro olygu ei fod yn anodd iddynt symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth. Weithiau byddai pobl ifanc oedd am aros ym myd addysg yn derbyn cyngor anghywir neu gyngor oedd yn gwrthdaro, ac roedd rhai heb y cymwysterau a’r profiad gwaith angenrheidiol i agor drysau i gyfleoedd addysg a gwaith yn y dyfodol.

## Gweithwyr Proffesiynol Hyfforddedig, Profiadol

Cefais fy nghalonogi fod pob awdurdod lleol yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau unigolion oedd wedi'u hyfforddi ac yn derbyn cefnogaeth briodol i weithio gyda phobl ifanc oedd yn gadael gofal. Dywedodd pob awdurdod lleol wrthym am ryw elfen o gydweithio a gweithio ar y cyd rhwng addysg, gwasanaethau cymdeithasol a Gyrfa Cymru, i gynnal y bobl ifanc oedd yn derbyn gofal ganddynt. Roedd gan rai awdurdodau becynnau hyfforddi datblygedig, tra bod eraill wedi mynegi bwriad i ddatblygu rhaglenni o'r fath. (gwelliannau gwasanaeth 26 a 27)

Yng nghyswllt hyfforddi Gweithwyr Cymdeithasol ac Ymgynghorwyr Personol:

Mae fîm **Addysg Bro Morgannwg** yn ceisio sefydlu digwyddiad dysgu trwy ymarfer gydag athrawon, gweithwyr cymdeithasol, cydweithwyr iechyd a gofalwyr maeth i wella'r ddealltwriaeth o faterion PDG.

Mae Cydlynnydd Addysg **PDG Blaenau Gwent** wrthi'n drafftio pecyn hyfforddi i'w ddarparu i grwpiau llai o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'u PDG, gan ganolbwyntio ar faterion sy'n berthnasol i ysgolion unigol, sefydliadau addysg a gwasanaethau eraill. Y bwriad yw cynnwys staff dynodedig yn eu hysgolion, Staff UCD, staff y gwasanaeth tiwtora a Swyddogion Lles Addysg.

Mae pecyn gwybodaeth hefyd i gael ei gynhyrchu a'i gyflwyno i'r holl ddarparwyr preswyl y mae plant sy'n derbyn gofal ym Mlaenau Gwent i gael eu lleoli gyda nhw. Bydd y pecyn yn canolbwyntio ar bwysigrwydd sefydlu cysylltiadau cadarn rhwng y lleoliad a'r ysgol a blaenoriaethu dysgu yn y cartref preswyl a'r lleoliad ysgol.

Mae **Caerdydd** yn datblygu grŵp prosiect "Dyfodol Mwy Disglair ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a Rhai sy'n Gadael Gofal" a fydd yn gweithio gyda'i gilydd i wella'r canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal. Un fenter y mae'r grŵp wedi'i datblygu yw cyflwyno Gwasanaethau Plant ar y cyd â gweithdai Addysg ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol, Athrawon a Gofalwyr Maeth. Un o nodau'r gweithdai hyn yw hyrwyddo dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau ar draws gwasanaethau.

Yng nghyswllt rôl athrawon PDG:

Dywedodd **Gwynedd** wrthym ni fod ganddyn nhw Gydlynnydd Addysg Grwpiau Agored i Niwed, sy'n cael ei benodi ar y cyd gan Adrannau Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol, a'i fod wedi cyflwyno hyfforddiant ar gyfer athrawon PDG dynodedig. Mae gan y swyddog hwn gyfrifoldeb clir am blant mewn gofal, ac mae mewn cyswllt rheolaidd â holl ysgolion Gwynedd i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer plant mewn gofal.

## Cymorth Ariannol ac Ymarferol

Yn ogystal â chael cynnig cyngor ac arweiniad ynghylch llwybrau i addysg uwch a hyfforddiant, elfen allweddol a nodwyd gan bobl ifanc o ran hyrwyddo eu dyheadau addysgol oedd cyngor ac arweiniad clir ynghylch cyllid a llety (gwelliant gwasanaeth 15).

Dywedodd nifer o awdurdodau wrthyf fi fod ganddynt ganllawiau eisoes yn manylu ar y gefnogaeth ariannol ac ymarferol sydd ar gael i'r rhai sy'n gadael gofal, ond nid oedd bob amser mewn fformat hwylus i bobl ifanc. Byddwn i'n annog pob awdurdod i sicrhau bod unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag anghenion pobl ifanc mewn fformat ac arddull y byddan nhw'n eu deall yn hawdd. Nid yw'n dderbyniol bod pobl ifanc yn methu cyrchu na deall gwybodaeth allweddol ar adeg mor hanfodol yn eu bywydau.

>>>

Mae **Bro Morgannwg** yn cynnig hyfforddiant i athrawon PDG dynodedig yn flynyddol, ac mae'r fîm addysg yn ceisio sefydlu digwyddiad dysgu trwy ymarfer gydag athrawon, gweithwyr cymdeithasol, cydweithwyr iechyd a gofalwyr maeth i wella ymhellach y ddealltwriaeth o faterion PDG. Mae pob ysgol ym Mro Morgannwg yn cael gwybod am rôl athrawon PDG, ac mae gan bob un ohonynt ffeil PDG ar gyfer gwybodaeth bellach.

Mae Cydlynwyr PDG **Casnewydd** wedi datblygu a chynhyrchu llawlyfr PDG ar gyfer athrawon PDG dynodedig, ac maent wedi defnyddio'r offeryn hwn yn sail ar gyfer eu hyfforddiant. Mae'r cydlynwyr PDG yn cynnal adolygiad blynyddol o'r athrawon PDG ym mhob ysgol i sicrhau bod staff newydd yn derbyn hyfforddiant a chefnogaeth priodol.

## Profiad Gwaith / Prentisiaethau a Chyfleoedd Addysgol

Roedd nifer o awdurdodau wedi nodi eu bod yn datblygu hyn ymhellach gan ddefnyddio amrywiaeth o fformatau electronig a hwylus i bobl ifanc. Lle nad yw'r wybodaeth hon yn bodoli ar hyn o bryd, roedd cynlluniau cyffredinol i ystyried neu ddatblygu adnodd o'r fath.

Mae **Bro Morgannwg** yn bwriadu darparu gwybodaeth berthnasol ar eu gwefan yn ystod 2013. Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael fel mater o drefn trwy'r Tim 15+ a'r 'siop dan yr unto.'

Mae **Abertawe** yn rhoi dogfen i bawb sy'n gadael gofal sy'n cynnwys manylion yr holl agweddau ariannol ar y cymorth y gallan nhw ei hawlio, yn ogystal â sut mae cael mynediad i fathau eraill o gymorth. Mae hyn yn cynnwys cymorth sydd ar gael i fynychu cyrsiau addysg, hawliau o ran budd-daliadau wrth dderbyn addysg, a gwybodaeth am golegau a phrifysgolion sy'n cynnig cymorth ariannol ac arall yn benodol i bobl ifanc sy'n gadael y system ofal.

Er mwyn delio gyda phroblemau diffyg cymwysterau a phrofiad gwaith ar gyfer pobl ifanc sy'n nesáu at annibyniaeth, fe wnes i awgrymu y dylai awdurdodau lleol ddatblygu profiad gwaith / prentisiaethau / cyfleoedd addysgol i bobl ifanc sy'n gadael gofal a chynllun gweithredu gyda thargedau ar gyfer gwella canlyniadau i'w pobl ifanc (gwelliant gwasanaeth 10).

Dywedodd yr holl awdurdodau lleol wrthym ni naill ai fod cynlluniau a chyfleoedd ganddyn nhw'n barod i bobl ifanc ddilyn profiad gwaith, neu anogaeth i fanteisio ar gyfleoedd addysg neu hyfforddiant, neu eu bod yn bwriadu gwneud y maes hwn yn flaenoriaeth ar gyfer y panel rhianta corfforaethol yn y dyfodol. O gadw mewn cof bod llawer o bobl ifanc yn manteisio ar leoliadau profiad gwaith neu'n cael cyngor a chefnogaeth ar gyfer gyrfa at y dyfodol trwy gyswllt teuluol, fe wnes i groesawu mentrau oedd yn dangos awdurdodau lleol yn cyflawni'r rôl hon fel rhieni corfforaethol.

Bu Panel Rhianta Corfforaethol **Gwynedd** yn trafod datblygu cyfleoedd profiad gwaith ar gyfer PDG, gyda'r nod yn y pen draw o leihau nifer y bobl ifanc sy'n gadael gofal a fyddai fel arall yn NEET. Mae mewnbwn Gyrfa Cymru yn elfen allweddol yng ngwaith y fenter hon, ac maent yn rhannu lleoliad yn swyddfa'r fîm Ôl-16 er mwyn hyrwyddo'r gwaith hwn, a gweithio gyda phobl ifanc i hybu cyfleoedd profiad gwaith. Partneriaeth yw'r cynllun rhwng Cyngor Gwynedd, Coleg Menai a Gyrfa Cymru.

Mae gan **Torfaen** ystod o wasanaethau i ddatblygu profiad gwaith, prentisiaeth a chyfleoedd addysgol i bobl ifanc sy'n symud ymlaen i fyw'n annibynnol, gan gynnwys eu Cynllun Mentora 16+ i gynnal eu pobl ifanc trwy wahanol agweddau ar eu pontio i annibyniaeth. Yn dilyn ymgynghori â phlant a phobl ifanc, gofalwyr maeth, staff a chynghorwyr, cytunwyd ar gynllun gweithredu sy'n cynnwys darparu cyfleoedd gwell megis cyflogaeth, hyfforddiant galwedigaethol ac addysg bellach.

Yng **Nghastell-nedd Port Talbot** mae Llwybr 16 wedi datblygu protocol gwaith gyda Choleg AB CNPT, a enillodd wobr genedlaethol yng Nghymru a'r DU yn ddiweddar am ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu i bobl ifanc. Bu canlyniadau positif, gyda chynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n mynd ymlaen i addysg bellach, cyfradd is o lawer yn gadael cyn gorffen, a chynnydd sylweddol yn y rhai sy'n gadael gofal sy'n symud ymlaen i addysg uwch. Mae'r Swyddogion Addysg PDG yn sicrhau bod y bobl ifanc yn derbyn cyfweiliadau Gyrfaoedd, cyngor a chymorth i wneud cais am AB a hyfforddiant ym mlwyddyn 10/11, ac mae diwrnodau agored a diwrnodau cyfeiriadol yn cael eu cynnal yn y coleg.

# Tai

## Llety ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal

Amlygwyd diffyg llety priodol fforddiadwy ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal fel problem gyffredin i'r mwyafrif o awdurdodau lleol ar adeg cyhoeddi "Ar Goll ar ôl Gofal". Er mwyn sicrhau bod llety priodol ar gael ar gyfer pobl ifanc oedd yn dechrau byw'n annibynnol, fe awgrymais y dylai Adrannau Tai a Gwasanaethau Plant adolygu eu lefelau stoc, llunio rhagamcanion o'r galw tebygol, a blaengynllunio i sicrhau eu bod yn medru darparu ystod o opsiynau tai addas ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal (gwelliannau gwasanaeth 25 ac 11).

Dyweddodd y mwyafrif o awdurdodau lleol wrthym ni eu bod wedi adolygu eu hopsiynau stoc tai ar gyfer pobl ifanc, neu bod ganddyn nhw gynlluniau i wneud hynny yn y dyfodol agos, a dim ond un awdurdod lleol fethodd â rhoi unrhyw dystiolaeth i ni am eu darpariaeth tai. Yn fy adroddiad gwreiddiol, ymddengys nid yn unig bod y stoc yn annigonol, ond hefyd nad oedd fawr ddim blaengynllunio, ac felly roeddwn i'n croesawu adroddiadau am gynllunio strategol gan y cyngor ehangach fel tystiolaeth eu bod yn cymryd eu cyfrifoldeb rhianta corfforaethol o ddifri. Er enghraifft:

Mae **Torfaen** yn ddiweddar wedi cymeradwyo eu Strategaeth Llety ar gyfer Pobl Ifanc, sy'n sefydlu blaenoriaethau ar hyd continwrm o lety a chefnogaeth ar gyfer pobl ifanc, ac yn cyflwyno cynllun gweithredu i ddiwallu eu hanghenion yn y Fwrdeistref. Hefyd gwahoddir aelodau arweiniol i ddigwyddiadau fel y Gynhadledd flynyddol i'r Rhai sy'n Gadael Gofal, i gynyddu eu hymwybyddiaeth o faterion sy'n effeithio ar bobl ifanc sy'n gadael gofal a'r angen am eu helpu i symud i annibyniaeth trwy ddarparu a hyrwyddo ystod o opsiynau llety addas.

Yng **Nghaerffili** mae'r Tîm Gadael Gofal yn gweithio'n rhagweithiol gyda staff tai yr Awdurdod Lleol, landlordiaid cymdeithasol a mentrau Cefnogi Pobl. Mae'r Swyddog Llety yn y Tîm Gadael Gofal yn sicrhau bod y rhagamcanion blynyddol yn cael eu cwblhau o ran nifer a mathau'r lleoliadau y bydd eu hangen ar bobl ifanc sy'n gadael gofal, a rhennir yr wybodaeth honno gyda phartneriaid a fydd yn gweithio i sicrhau bod yr angen hwnnw'n cael ei ddiwallu.

Roedd nifer sylweddol o ymatebion gan awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar bolisiau neu weithdrefnau tai ieuencid mwy cyffredinol, heb drafod y rhai oedd yn gadael gofal yn benodol. Er eu bod yn disgrifio cydweithio agos rhwng y gwasanaethau cymdeithasol, tai a'r trydydd sector i ymateb i'r angen a nodwyd, nid oedd yr ymatebion hyn yn ymdrin yn benodol â mater y ddarpariaeth, ac rwy'n cael yr argraff, er gwaethaf fy adroddiad, bod yr opsiynau llety ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal yn dal yn destun pryder.

## Llety â Chymorth

Dyw rhai pobl ifanc ddim yn barod i adael gofal yn 18 oed, a dydyn nhw ddim yn gwerthfawrogi bod rhwymedigaeth ar yr awdurdod lleol tuag atynt wedi'r oed hwnnw. Fe wnes i awgrymu y dylai Penaethiaid Gwasanaethau Plant a Theuluoedd gynllunio ar gyfer newid lleoliadau maeth yn lleoliadau llety â chymorth hyd at 21 oed ar gyfer pob person ifanc os yw'r gofalwr maeth a'r person ifanc yn gofyn am hynny. Mae angen i bobl ifanc wybod hefyd eu bod yn gallu cyrchu gofal a chymorth os bydd byw'n annibynnol yn methu (gwelliannau gwasanaeth 16 ac 18).

Dywedodd 16 awdurdod lleol wrthym ni ei fod eisoes yn arfer cyfredol ganddynt newid lleoliadau maeth yn lleoliadau llety â chymorth ar gais, ac mae rhai wedi bod yn gwneud hyn ers sawl blwyddyn. Mae eraill yn ymgynghori neu'n adolygu hyn fel opsiwn, yn enwedig yng ngoleuni ymgynghoriad a chynigion "Pan Fydda i'n Barod" Llywodraeth Cymru.

Mae **Cyngor Bro Morgannwg** yn cefnogi pobl ifanc 18 oed a throsodd i aros yn aelwydydd eu gofalwyr maeth o dan drefniant llety â chymorth. Maen nhw wrthi'n datblygu'r cynllun ymhellach, gan gadw gofynion y cynllun "Pan Fydda i'n Barod" mewn cof. Maen nhw'n bwriadu ymgynghori â phobl ifanc, ond ar hyn o bryd maen nhw'n cyfeirio at y cynllun hwn fel gwasanaethau "18+".

Yng **Ngwynedd** gall person ifanc sydd mewn lleoliad maeth sefydlog aros ar ôl eu pen-blwydd yn 18, a gellir ei droi yn drefniant llety â chymorth os yw'r ddwy ochr yn cytuno. Maen nhw hefyd yn trefnu llety yn ystod y gwyliau gyda'u gofalwyr maeth i bobl ifanc sydd mewn sefydliadau addysg uwch cyhyd â phosibl. Mae nifer o enghreifftiau lle mae'r gofalwyr yn cadw mewn cysylltiad â'r pobl ifanc ac yn dal i'w cefnogi yn hir wedi iddynt adael gofal.

Dywedodd nifer o awdurdodau wrthym ni fod ganddyn nhw gynlluniau i gynyddu'r ddarpariaeth llety â chymorth, ac o ystyried anghenion cefnogi'r rhai sy'n gadael gofal, byddai hwn yn gam i'w groesawu. Byddaf yn parhau i fonitro'r datblygiadau â diddordeb.

Adroddodd **Bro Morgannwg** fod y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Tai a Llamau, wedi cynnal adolygiad o'r opsiynau tai oedd ar gael. Nododd yr adolygiad fod ystod dda o opsiynau, ond bod bwlch o ran llety priodol i symud ymlaen yn y tymor byr rhwng gofal maeth/ llety â chymorth /gofal preswyl ac annibyniaeth. Maen nhw wrthi ar hyn o bryd yn datblygu achos busnes ar gyfer dwy fflat hunangynhaliol lle byddai cymorth ar gael gan weithwyr penodedig.

Mae **Rhondda Cynon Taf** wedi datblygu prosiect fflat hyfforddi mewn partneriaeth â chymdeithas tai a'r tîm ôl-ofal. Ar hyn o bryd mae hwn yn darparu dwy uned lety, sy'n cael eu defnyddio cyn i berson ifanc adael gofal, am un wythnos yn y lle cyntaf, ac wedyn am hyd at bedair wythnos, i roi blas ar annibyniaeth iddyn nhw. Mae llwyddiant y prosiect wedi arwain at gytuno ar gyllid ar gyfer dwy uned lety arall.

Mae **Sir Gaerfyrddin** wedi ymgynghori â'r rhai sy'n gadael gofal ac wedi cynnwys eu barn yn eu Cynllun Dewisiadau Tai. Maen nhw'n awyddus i ddatblygu ystod ychwanegol o lety â chymorth fel rhan o'r cynllunio ehangach ar gyfer dewisiadau llety o fewn y sir ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal.

Fe awgrymais i hefyd fod angen hysbysu pobl ifanc ynghylch eu hawl i ddychwelyd i ofal os bydd byw'n annibynnol yn methu. Er bod yr holl awdurdodau lleol wedi dweud wrthym bod hynny'n opsiwn, dim ond 6 ddywedodd wrthym ni eu bod yn mynd ati i roi gwybod i'r pobl ifanc am hynny.

Roedd **Merthyr Tydfil** yn ymgynghori'n uniongyrchol gyda'u pobl ifanc cyn dychwelyd yr ymateb monitro, a phan ddywedodd eu pobl ifanc wrthynt nad oedden nhw'n gwybod y gallen nhw ddychwelyd i ofal, a'u bod nhw'n meddwl byddai'n rhaid mynd i wely a brecwast petaen nhw'n methu byw'n annibynnol, fe ddwedson nhw wrthyf fi y bydden nhw'n cymryd camau i sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei rhannu gyda phobl ifanc. Mae eu canllawiau "Reconnecting to Care" yn cael eu datblygu gan y Gwasanaeth Trefniadau Parhaol a Thîm Gofal yn y Dyfodol Barnardo's, er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn ymwybodol o'r holl opsiynau.

Mae **Abertawe** yn cydnabod na fydd y cynnydd at annibyniaeth bob amser yn dilyn llinell benodol, gan fod angen dychwelyd at amgylchedd mwy cefnogol yn achlysurol, a gall pob person ifanc sy'n gadael gofal ddychwelyd i ofal os bydd eu hanghenion a'r nodweddion sy'n eu gwneud yn agored i niwed yn golygu na allan nhw fyw'n ddiogel yn y gymuned dros dro. Cânt eu cefnogi, heb eu cosbi, trwy roi ail a thrydydd cyfle iddyn nhw gynnal tenantiaeth, neu ddychwelyd i ofal lle bo angen.

## Cefnogi Tenantiaeth

Yn aml, gall pobl ifanc sy'n rheoli eu tenantiaethau eu hunain am y tro cyntaf brofi anawsterau wrth reoli gofynion byw'n annibynnol, a gall hynny arwain at gyfres o fethiannau tenantiaeth. Gall hwn fod yn anhawster arbennig i'r rhai sy'n gadael gofal nad oes ganddynt o reidrwydd y gefnogaeth deuluol a chymdeithasol sydd gan bobl ifanc eraill. Fe awgrymais i fod rhaid cynnig cefnogi tenantiaeth pawb sy'n gadael gofal ac yn symud ymlaen i fyw'n annibynnol hyd at 21 oed, ac y dylid newid polisiau lleol i sicrhau bod y rhai sy'n gadael gofal yn cael ail neu drydydd cyfle i lwyddo gyda thenantiaeth (gwelliannau gwasanaeth 22 a 23).

Roedd mwyafrif yr awdurdodau lleol wedi ystyried newid eu polisiau tai fel hyn, neu roeddent yn bwriadu gwneud hynny yn y dyfodol agos. Roedd ambell un wedi newid eu polisiau i roi sylw i amgylchiadau penodol y rhai oedd yn gadael gofal, ond roedd y mwyafrif yn cynnwys cyfeiriad mwy cyffredinol at bobl ifanc â phroblemau tai, ac yn dweud wrthym am brosesau a oedd ar waith i gynnig cefnogaeth ychwanegol i bob person ifanc, fel eu bod yn osgoi methiannau tenantiaeth yn y lle cyntaf.

Yng **Nghaerffili** mae gwaith wedi cael ei wneud gydag adran tai yr awdurdod lleol i newid eu polisiau ynghylch y Rhai sy'n Gadael Gofal. Mae'r Tîm Gadael Gofal wedi sicrhau bod methiannau tenantiaeth yn cael eu harchwilio gyda'r adran tai, a bod mesurau ar y cyd yn cael eu rhoi yn eu lle i sicrhau bod unrhyw denantiaeth ddilynol yn llwyddo. Mae Swyddogion Atal Digartrefedd yn gweithredu fel cyfryngwyr gyda landlordiaid sector preifat lle bo tenantiaethau'r rhai sy'n gadael gofal o dan fygythiad.

Mae **Sir y Fflint** yn datblygu gweithdrefnau i ganfod elfen o fwriad – lle bo person yn cyfrannu'n fwriadol at fod yn ddigartref. Ni fydd hyn yn cael ei ddefnyddio yng nghyswllt y rhai sy'n gadael gofal pan fydd eu tenantiaeth annibynnol gyntaf yn methu. Gwneir gwiriadau awtomatig fel rhan o ymchwiliadau digartrefedd i sicrhau y sylwir ar statws y sawl sydd wedi gadael gofal. Mae gwasanaeth cyfarfodydd amharu llwyddiannus yn Sir y Fflint ar gyfer lleoliadau PDG sydd wedi methu, ac mae trafodaethau ar waith ar hyn o bryd i ehangu'r model hwn i fethiant ym maes llely, er mwyn mabwysiadu dull gwersi a ddysgwyd.

## Hyfforddiant Tai i Weithwyr Proffesiynol

Er mwyn sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol ac ymgynghorwyr personol yn rhoi cefnogaeth a chynghor effeithiol i bobl ifanc ynghylch materion llely, fe awgrymais i y dylai Adrannau Tai gynnig sesiwn hyfforddi neu friffio flynyddol (gwelliant gwasanaeth 24).

Rhoddodd 21 o blith 22 awdurdod lleol dystiolaeth i mi ynghylch y mater hwn, a gallaf weld fod lefel uchel o gydweithio a chydweithredu ledled Cymru rhwng y gwasanaethau cymdeithasol ac adrannau tai. Cafwyd ymateb cadarnhaol i'm hawgrym penodol ynghylch sesiynau hyfforddi neu friffio, gyda rhai awdurdodau'n cynllunio rhagor o gyfleoedd i ddysgu'n ffurfiol ac yn anffurfiol yn y dyfodol. Fy unig bryder yw nifer y cyfeiriadau at gyfleoedd dysgu anffurfiol. Roedd yn dda gweld un awdurdod yn cyflwyno cynllun mentora i sicrhau nad oedd lefel yr arbenigedd a'r wybodaeth yn eu hawdurdod yn cael ei cholli.

Ym **Mlaenau Gwent** mae'r Tîm Rhwydwaith 16+ yn cynnal asesiadau ar y cyd â swyddogion tai, ac maent fel ei gilydd yn treulio amser yn nhîm y gweithiwr arall. Mae hyn yn arwain at rannu gwybodaeth ac arbenigedd yn naturiol. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd ar lefel rheolwyr a rhwng aelodau'r fîm, ac mae'r adran tai wedi darparu hyfforddiant parhaus ynghylch y Ddeddf Diwygio Lles a fydd yn effeithio ar bobl ifanc sy'n symud i fyw'n annibynnol.

Mae staff Llwybr 16 **Castell-nedd Port Talbot** yn gyson yn delio â materion tai, ac maent yn wybodus am lety â chymorth, a hefyd y tai sydd ar gael yn CNPT a'r ardaloedd o amgylch. Mae lefel uchel o arbenigedd o fewn y gwasanaeth, ac er mwyn sicrhau bod hynny'n cael ei drosglwyddo i staff newydd, mae system fentora i gael ei sefydlu, fel bod yr arbenigedd yn cael ei chynnal o fewn y gwasanaeth.

# Byw'n Annibynnol

Yn fy adroddiad fe wnes i ddisgrifio patrwm anghyson ar draws Cymru o ran y paratoi a'r gefnogaeth a roddir i bobl ifanc cyn gadael gofal. Fe gefais nad oedd cydnabyddiaeth glir bob amser o lefel y gefnogaeth ymarferol ac emosiynol barhaus y gallai fod ei hangen ar y person ifanc hyd at 18 oed ac wedi hynny. Nid oedd rhai pobl a gwasanaethau allweddol yn cael eu darparu'n ddiofyn nac yn hawdd cael mynediad atynt, ac weithiau teimlai pobl ifanc eu bod yn cael eu rhuthro, neu nad oeddent yn deall eu hawliau o ran gadael gofal a'r opsiynau oedd ar gael iddyn nhw, petaen nhw'n cael bod byw'n annibynnol yn anodd iawn.

## Canolfan galw heibio

Fe awgrymais i y dylai'r Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn partneriaeth â sefydliadau gwirfoddol, ddatblygu cyfleuster cymorth galw heibio ar gyfer pawb oedd yn gadael gofal hyd at 25 oed, i ddarparu cyngor, arweiniad, hyfforddiant sgiliau byw'n annibynnol a chefnogaeth emosiynol (gwelliant gwasanaeth 14).

Roeddwn i'n falch o glywed bod llawer o awdurdodau lleol wedi sefydlu canolfannau galw heibio neu eu bod yn bwriadu eu datblygu. Er enghraifft:

Mae fîm Ar ôl **Gofal Pen-y-bont ar Ogwr** wedi ymuno â rhan o Wasanaeth Ieuencid yr Awdurdod Lleol fel bod modd i bobl ifanc gyrchu amrywiaeth o wasanaethau o un ganolfan. Enw'r gwasanaeth hwn yw Just@sk Plus.

Yn **Sir Benfro** mae'r Tîm Rhianta Corfforaethol yn datblygu sesiwn galw heibio/fforwm misol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal, mewn cysylltiad â'r gwasanaeth ieuencid. Mae manyleb gwasanaeth ar gyfer prosiect llety â chymorth craidd a chlwstwr yn cael ei datblygu ar hyn o bryd, a rhoddir ystyriaeth i gynnwys cefnogaeth galw heibio fel rhan o hyn.

Roedd rhai awdurdodau lleol yn ceisio barn y rhai oedd yn gadael gofal yn eu hardaloedd i sicrhau bod hwn yn gyfleuster y byddent yn ei ddefnyddio, a bod unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol yn cyfateb i anghenion a dymuniadau'r bobl ifanc:

Mae Swyddog Cyfranogiad PDG **Abertawe** wedi cynnal sawl digwyddiad gyda'r rhai sy'n gadael gofal yn ystod y chwe mis diwethaf ynghylch y math o gefnogaeth yr hoffon nhw ei derbyn a ffurf bosib cyfleuster 'galw heibio' yn y dyfodol. Bydd eu syniadau'n cael eu bwydo i mewn i Strategaeth Gomisiynu Gwasanaethau Plant a Theuluoedd 2013-18. Gall pobl ifanc 'alw heibio' prosiect BAYS Barnardo's i gael cymorth, cyngor a chefnogaeth emosiynol gan eu Hymgyngorydd Personol Ieuencid.

Mae **Merthyr Tydfil** yn ymgynghori â phobl ifanc trwy'r Grŵp Cyfranogiad PDG ynghylch cyfleuster cymorth 'galw heibio' ar gyfer yr holl bobl ifanc hyd at 21/25 oed sy'n symud ymlaen i fyw'n annibynnol. Bydd safle Tîm Gofal y Dyfodol yn gallu cynnwys y cyfleuster hwn.

## Paratoi ar gyfer Byw'n Annibynnol

Rwy'n cydnabod bod y ddaearyddiaeth yn creu anawsterau i rai awdurdodau o ran lleoli canolfan galw heibio, ac rwy'n croesawu'r ffaith bod atebion a ffyrdd eraill o gefnogi pobl ifanc yn cael eu harchwilio. Er enghraifft:

Dyweddodd **Sir Fynwy** wrthym ni fod y ddaearyddiaeth yn golygu nad ydyn nhw'n barnu y byddai un cyfleuster cymorth galw heibio yn ymarferol, felly mae'r fîm yn gweithio'n galed i ymateb i anghenion unigol, ac mae'n bwriadu datblygu rota o sesiynau galw heibio ar draws y sir.

Mae **Powys** wedi darparu cyfleusterau galw heibio, ond nid yw daearyddiaeth Powys yn cefnogi eu cynnal yn rheolaidd. Maent yn darparu gwybodaeth am wasanaethau eraill perthnasol, yn cynnwys gwasanaethau cymorth galw heibio Gwalia a grwpiau gwasanaeth ieuencid. Gan gydnabod anawsterau'r sefyllfa ddaearyddol, cynhelir digwyddiadau preswyl a gweithgareddau rheolaidd, yn ogystal â diwrnodau ymgynghori, ac mae ganddyn nhw newyddlenni rheolaidd a thudalen ar Facebook ar gyfer pobl ifanc, i wella'r cyswllt a'r wybodaeth.

Dim ond un awdurdod lleol ddywedodd fod darparu cyfleuster galw heibio y tu hwnt i gylch gorchwyl ac adnoddau eu gwasanaeth, er iddynt ddweud eu bod yn cynnig gwasanaeth allgymorth.

Roedd pob un o'r 22 awdurdod lleol naill ai'n cynnig peth hyfforddiant ar fyw'n annibynnol neu'n ei ystyried, ond yn gyffredinol ni nodwyd yn yr ymatebion a oedd yr hyfforddiant hwn wedi'i achredu neu beidio. Mae hynny'n fy siomi, gan i mi dybio mai un o fanteision darparu hyfforddiant wedi'i achredu, yn ogystal â pharatoi person ifanc ar gyfer byw'n annibynnol, oedd y cyfle i'r person ifanc sicrhau cydnabyddiaeth ffurfiol, a allai helpu i wella'u hunan-barch neu eu rhagolygon cyflogaeth neu hyfforddiant.

Roedd peth o'r hyfforddiant a nodwyd gan awdurdodau lleol wedi'i deilwra ac yn benodol ar gyfer y rhai oedd yn gadael gofal, ond yn bennaf roedd yn hyfforddiant mwy cyffredinol, ac yn aml yn ad hoc. Rwy'n croesawu ymrwymiad rhai awdurdodau lleol i gynnwys hyfforddiant yn eu blaenraglen waith er mwyn darparu dull mwy cyson a phellgyrhaeddol. Er enghraifft:

Mae Gwasanaethau Plant **Caerdydd**, mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru a Choleg Caerdydd a'r Fro, yn darparu cwrs o'r enw "Mynediad i Astudiaethau Galwedigaethol". Mae'r cwrs hwn, sydd wedi'i deilwra ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal, yn rhoi cyfle i bobl ifanc ddysgu am reolaeth ariannol, coginio, glanhau, hylendid personol, gwydnwch emosiynol, bod yn gymydog da, sgiliau datrys problemau a chynngor ar iechyd. Mae hefyd yn rhoi cyfle i ddatblygu sgiliau galwedigaethol mewn maes o'u dewis.



## Cefnogaeth gan Ofalwyr / Eiriolwyr / Ymwelwyr Annibynnol

Fe awgrymais y dylid datblygu modiwl hyfforddi "cynllunio pontio" ar gyfer yr holl ofalwyr maeth a staff preswyl er mwyn sicrhau bod y bobl allweddol hyn sy'n darparu gofal a chymorth yn ddyddiol yn alluog ac yn hyderus wrth gynnig cyngor priodol (gwelliant gwasanaeth 21).

Yn **Abertawe** mae cyfran fechan o'r rhai sy'n gadael gofal yn cyrchu prosiect BEATS lle gallan nhw gael mynediad i gyrsiau sgiliau sylfaenol, amrywiol weithgareddau meithrin hyder a chofrestru ar gyrsiau wedi'u hachredu a allai wella eu cyfleoedd i sicrhau cyflogaeth. Mae rhagor o wybodaeth a chyngor, e.e. ar faterion iechyd rhyw, ar gael o 'flaen shop' Info-nation Addysg yng nghanol y ddinas.

Dangosodd pob un o'r 22 awdurdod lleol ymrwymiad i hyfforddi gofalwyr maeth er mwyn eu galluogi i gefnogi'r bobl ifanc trwy'r cynnod pontio. Mae 11 o awdurdodau lleol eisoes yn darparu hyfforddiant penodol i ofalwyr maeth a gweithwyr cymorth preswyl ynghylch pontio. O'r 11 awdurdod lleol arall, mae rhai eisoes yn darparu hyfforddiant i weithwyr preswyl, ac yn awr yn bwriadu ei estyn i ofalwyr maeth neu fel arall, ac mae'r gweddill yn awyddus i ddatblygu a chyflwyno pecyn hyfforddi. Er enghraifft:

Mae **Casnewydd** wedi cyflwyno eu cwrs hyfforddi cyntaf "Caring is Preparing" ar gyfer gofalwyr maeth gan y fîm 16+, a bydd yn parhau i gael ei gynnig. Mae staff o'r fîm 16+ yn gweithio'n agos iawn gyda'r staff preswyl, gan gwrdd â nhw'n wythnosol. Maen nhw hefyd yn gweithio gyda gofalwyr maeth unigol i'w galluogi i chwarae eu rhan yn y broses o gynllunio pontio ar gyfer pobl ifanc.

Mae **Bro Morgannwg** eisoes yn cynnwys 'symud ymlaen' yn rhaglen hyfforddi'r gwasanaethau cymdeithasol, ac mae'n cynnwys cefnogi pobl ifanc i bontio i annibyniaeth. Mae cwrs lefel uwch, sydd wedi'i dargedu'n fwy, yn cael ei ddatblygu'n benodol o amgylch symud pobl ifanc ymlaen i annibyniaeth. Mae'r cyrsiau yma'n hygyrch i ofalwyr maeth a darparwyr gofal preswyl a gomisiynir ym Mro Morgannwg.

Yng **Nghaerffili** mae'r fîm gadael gofal wedi bod yn darparu hyfforddiant i ofalwyr maeth ar baratoi pobl ifanc i fod yn annibynnol ers 2005. Bydd gweithredu "Paratoi ar gyfer Annibyniaeth" yn ystod 2013 yn golygu bod modd i'r paratoi ar gyfer annibyniaeth gychwyn pan fo'r plentyn yn iau a datblygu elfennau mwy cymhleth ac amrywiol wrth i'r plentyn dyfu'n hŷn.

Mae angen sicrhau cysylltiad pendant rhwng y cymorth ymarferol hwn gan ofalwyr uniongyrchol a mynediad hwylus at unigolion allweddol eraill a all roi cymorth, cyngor ac arweiniad i'r rhai sy'n gadael gofal. Fe awgrymais i y dylai gwasanaethau eiriolaeth i'r rhai sy'n gadael gofal gael eu hyrwyddo'n effeithiol a bod ar gael yn hwylus i bob person ifanc sy'n symud ymlaen i fyw'n annibynnol, hyd at 21 oed, ac y dylid adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer darparu ymwelwyr annibynnol, gan fod tuedd i lefel yr adnoddau ar eu cyfer fod yn wael ac iddynt fod yn anodd eu cyrchu (gwelliannau gwasanaeth 19 ac 17).

Ar hyn o bryd mae 21 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn comisiynu gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal, a dim ond un ddywedodd wrthym ni nad yw eu contract eiriolaeth cyfredol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal, er bod hynny'n statudol ofynnol. Rhagwelir y bydd ymgysylltiad yr awdurdod hwn â phrosiect comisiynu rhanbarthol newydd yn datrys y diffyg hwn. Roeddwn yn arbennig o falch o glywed sut mae 15 o awdurdodau'n hyrwyddo'u gwasanaethau'n rhagweithiol, gan ddarparu enghreifftiau o hynny. Yn fy adroddiad diweddar ar ddarparu gwasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol "Lleisiau Coll"<sup>1</sup> roeddwn wedi mynegi pryder ynghylch yr hyrwyddo gwael a geir i eiriolaeth a pha mor bwysig yw hi bod pobl ifanc yn cael gwybod am eiriolaeth.

<sup>1</sup> Lleisiau Coll 2012 (Comisiynydd Plant Cymru)

Dyweddodd **Blaenau Gwent** wrthym eu bod yn cynnig gwasanaethau eiriolaeth yn rhagweithiol i bob plentyn a pherson ifanc sy'n derbyn gofal. Bythefnos cyn pob adolygiad PDG cynigir cefnogaeth eiriolwr fel mater o drefn. Mae gan y cydlynnydd NYAS gysylltiadau da â'r holl dimau gwasanaethau cymdeithasol, ac mae hynny'n hyrwyddo defnydd o'r gwasanaeth.

Yng **Nghasnewydd** mae eiriolaeth ar gael i bawb sy'n gadael gofal ac mae'n cael ei hyrwyddo'n rhagweithiol gan y fîm 16+ a chan Be Heard, y darparwr eiriolaeth. Mae'r darparwr yn mynd i gyfarfodydd fîm, ac yn galw heibio er mwyn parhau i atgoffa staff i roi gwybod i'r bobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw ynghylch eu hawl i eiriolaeth.

O ran gwasanaethau ymwelwyr annibynnol, dywedodd 21 awdurdod lleol wrthyf fi eu bod wedi comisiynu gwasanaeth ymwelydd annibynnol, gydag un yn unig yn prynu'r gwasanaeth hwn yn ôl y galw. Roeddwn wedi awgrymu yn Lleisiau Coll y dylid adolygu'r gwasanaethau hyn, gan fy mod wedi clywed bod lefel yr adnoddau ar eu cyfer yn isel, a'u bod yn anodd eu cyrchu. Dangosodd yr ymatebion fod monitro gwasanaethau wedi arwain at ddatblygiadau cadarnhaol mewn rhai ardaloedd, gydag un ardal yn unig yn dweud eu bod wedi lleihau'r gwasanaeth yn dilyn adolygiad.

Ar hyn o bryd mae gan **Rhondda Cynon Taf** Wasanaeth Ymwelwyr Annibynnol a reolir gan Tros Gynnal ac sy'n cael ei hyrwyddo ymhlith pobl ifanc a gweithwyr cymdeithasol. Mae 10 ymwelydd annibynnol, a gall y gwasanaeth gael ei gynyddu i ymateb i'r galw ar unrhyw adeg.

Mae Gwasanaeth Ymwelwyr Annibynnol **Sir Gaerfyrddin** yn cael ei ddarparu trwy Gweithredu dros Blant. Dylai fod yn hawdd ei gyrchu, a gofynnwyd i Swyddogion Adolygu Annibynnol sicrhau bod atgyfeiriadau priodol yn cael eu gwneud i'r gwasanaeth.

# lechydd

O gyfsweld pobl ifanc ar gyfer “Ar Goll ar ôl Gofal” fe wnes i ddarganfod, er gwaethaf canllawiau Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfarwyddyd i weithwyr proffesiynol oedd yn gweithio gyda phobl ifanc oedd yn gadael gofal i hwyluso trefniadau er mwyn eu hannog i gofrestru gyda meddygfeydd a deintyddion<sup>2</sup>, fod pobl ifanc yn dal i wynebu rhai rhwystrau ac anawsterau. Yn arbennig, roedd angen cefnogaeth ar bobl ifanc i sicrhau eu bod yn gallu cofrestru’n llwyddiannus gyda meddygon teulu a deintyddion.

<sup>2</sup> (Llywodraeth Cymru) 2007 Tuag at fywyd sefydlog a dyfodol gwell

Fe awgrymais y dylai Byrddau Iechyd Lleol ystyried rhoi canllawiau i Feddygfeydd Teulu yn amlinellu'r arfer gorau ar gyfer delio gyda phobl ifanc sy'n derbyn gofal, neu sydd wedi bod yn derbyn gofal (gwelliant gwasanaeth 29). Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, roeddwn wedi derbyn ymatebion gan bedwar bwrdd iechyd lleol:

Ymatebodd **Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (ABMU)** yn cadarnhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau statudol fel y'u cyflwynwyd yn "Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell". Ymatebodd ABMU i "Ar Goll ar ôl Gofal" fel a ganlyn, "Mae'n hanfodol bod plant sy'n derbyn gofal yn cael eu cofrestru'n barhaol gyda meddygfa deulu leol lle bynnag y bo modd, a bod eu cofnodion iechyd yn cael eu diweddarau ac yn dilyn y plentyn yn brydlon."

Cadarnhaodd **Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan (ABHB)** eu bod yn derbyn y gwelliant gwasanaeth a awgrymwyd, a'u bod wedi cynhyrchu canllawiau drafft i Feddygon Teulu yn amlinellu eu cyfrifoldebau o ran iechyd a lles plant sy'n derbyn gofal. Dywed y canllawiau drafft mai'r "Arfer gorau wrth ddelio gyda phobl ifanc sydd am gael mynediad i wasanaethau ond nad oes ganddynt riant na gofalwr i gofrestru ar eu rhan, yw delio gyda'u problemau meddygol yn gyntaf ac yna ystyried eu cofrestru".

Roedd **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** hefyd yn derbyn y gwelliant gwasanaeth a awgrymwyd. Roedd y Bwrdd Iechyd Lleol yn cydnabod bod "pobl ifanc a fu'n derbyn gofal yn hanesyddol yn cael anhawster cofrestru gyda Meddyg Teulu wrth adael gofal os nad oedd cyfeiriad ganddynt. Mae hyn wedi cael ei gywiro yng Ngogledd Cymru trwy ddefnyddio Gwasanaeth Uwch Lleol, y cytunwyd arno gyda Meddygon Teulu, sy'n canolbwyntio ar ddarparu ar gyfer grwpiau agored i niwed a digartref. O ran rhoi canllawiau i Feddygon Teulu yn amlinellu'r arfer gorau yng nghyswllt plant sy'n derbyn gofal (PDG), y bwriad yw cwblhau hynny yn ystod 2013.

Bu **Bwrdd Iechyd Addysgu Powys** yn fy hysbysu bod "Ar Goll ar ôl Gofal" wedi'i wreiddio yng ngwaith Bwrdd Lleol Diogelu Plant Powys, yn arbennig y grŵp ar Leoliadau Diogel, Sicr a Sefydlog. Yn ôl y Bwrdd Iechyd Lleol, "Mae gennym ddau Nyrs Arbenigol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal er mwyn ymdrin ag anghenion iechyd plant sy'n derbyn gofal gan Gyngor Sir Powys a'r plant agored i niwed a leolir yma gan awdurdodau eraill... Mae ein Nyrsys Arbenigol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn cadw mewn cysylltiad cyson â'n 17 Practis Meddyg Teulu. Anfonir copi o hysbysiadau statudol at Feddygon Teulu, fel eu bod yn gwybod pan fydd plentyn yn derbyn gofal neu'n cyrraedd Powys. Maent yn derbyn copïau o asesiadau iechyd a chynlluniau, ac mae ein fîm nyrsiau yn cadw mewn cysylltiad â nhw ynghylch unrhyw bryderon, gan gynnwys cynllunio pontio... Mae ein fîm hefyd yn ymwneud â hyfforddi gofalwyr maeth. Y llwybrau hyn rydym ni'n eu defnyddio i barhau i hyrwyddo pwysigrwydd sicrhau bod y rhai sy'n gadael gofal wedi'u cofrestru gyda Meddygon Teulu, fel bod eu hiechyd a'u lles yn cael eu hybu".

Byddaf yn cysylltu eto â Byrddau Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro, Cwm Taf a Hywel Dda, i sicrhau eu bod hwythau wedi gwneud eu trefniadau eu hunain ar gyfer ymdrin â'r gwelliant gwasanaeth a gyflwynais yn "Ar Goll ar ôl Gofal".

<sup>3</sup> (Llywodraeth Cymru) 2007 Tuag at fywyd sefydlog a dyfodol gwell

# Llywodraeth Cymru ac AGGCC

## Oedran Gadael Gofal / Cymorth Ariannol i'r Rhai sy'n Gadael Gofal

Roeddwn wedi nodi dau faes arbennig lle gallai Llywodraeth Cymru helpu i wella cyfleoedd bywyd y plant hynny oedd yn gadael gofal.

Roedd pobl ifanc yn aml yn teimlo eu bod yn gorfod gadael gofal yn rhy gynnar. Un o'r negeseuon mwyaf cyson a gafwyd gan y bobl ifanc a'r gweithwyr proffesiynol y buon ni'n cwrdd â nhw oedd bod llawer o bobl ifanc yn gorfod gadael gofal cyn eu bod nhw'n barod, ac yn aml bod y pontio, yn hytrach na bod yn raddol, yn rhy sydyn neu chwim. Fe alwais, felly, ar Lywodraeth Cymru i newid y ddeddfwriaeth ac estyn yr uchafswm oed pryd mae'n rhaid i berson ifanc adael lleoliad maeth neu breswyl o 18 i 21 (gwelliant gwasanaeth 2).

Nododd "Ar Goll ar ôl Gofal" hefyd y diffyg cefnogaeth ariannol gyson ar gyfer y rhai oedd yn gadael gofal, gan gynnwys y rhai sy'n mynd ymlaen i addysg bellach ac uwch. Fe awgrymais y dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â'r rhai sy'n gadael gofal i adolygu'r gefnogaeth ariannol sydd ar gael i bobl ifanc sy'n symud ymlaen i fyw'n annibynnol, er mwyn pennu lefel dderbyniol o gefnogaeth ar gyfer pawb sy'n gadael gofal, a rhoi arweiniad i awdurdodau lleol (gwelliant gwasanaeth 1).

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mewn ymateb ysgrifenedig i mi cyfeiriodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fel rhywbeth oedd wrth wraidd yr agenda wella, a mynegi eu hamcan o wella'r canlyniadau llesiant i bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt.

"Rwyf wedi egluro, os ydym i gyrraedd y nod hwn a chyflawni'n cyfrifoldebau rhianta corfforaethol, bod rhaid i ni sicrhau llawer mwy o drefniadau arweinyddiaeth genedlaethol amlochrog, gyda'r atebolrwydd lleol am gyflawni wedi'i seilio ar Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol cydlynus. Bydd y Fframwaith hwn yn mynegi'n glir yr hyn y gall unigolion ei ddisgwyl, yn darparu ffocws a rennir er mwyn hybu llesiant i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar y cyd, er mwyn mesur beth rydym ni'n ei wneud yn dda a beth mae angen i ni ei wella, gan sicrhau felly bod pobl yn derbyn gwasanaethau ansawdd uchel y maent yn fodlon arnynt, a'n bod wedi blaenoriaethu gwella'r canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ar frig y Rhaglen hon."

Cyfeiriodd y Gweinidog hefyd at gynllun arfaethedig "Pan Fydda i'n Barod" Llywodraeth Cymru, sy'n ceisio galluogi pobl ifanc i aros gyda'u gofalywyr maeth blaenorol ar ôl cyrraedd 18 oed. Datblygwyd y cynllun hwn a'i arwain gan Ken Skates AC, gyda'r bwriad o wneud awdurdodau lleol yn fwy corfforaethol atebol am sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn pontio'n ddi-fwlch o ofal i oedolaeth. Yn dilyn proses ymgynghori, mae Dirprwy

## Fforwm PDG Cymru Gyfan

Weinidog y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi penderfynu gweithredu'r Cynllun ar sail 'arloesi' a'i roi ar brawf mewn nifer bychan o ardaloedd awdurdod lleol. Yn y lle cyntaf, dechreuodd Gwynedd, Merthyr a Rhondda Cynon Taf arloesi'r cynllun ym mis Mehefin eleni, ac mae disgwyl y bydd hyn yn cael ei estyn i weddill Cymru ymhen 12 mis, wedi i Lywodraeth Cymru asesu effaith y canllawiau cyfredol, ac ymdrin ag unrhyw faterion gweithredol y mae angen rhoi sylw pellach iddynt.

Er fy mod yn cefnogi bwriadau ac egwyddorion y cynllun "Pan Fydda i'n Barod", roedd gen i rai pryderon ynghylch y ffyrdd roedd Llywodraeth Cymru yn eu cynnig ar gyfer ei weithredu, ac rwy'n gobeithio y bydd y cyfnod 'arloesi' yn datblygu'r cynllun fel bod modd ei gyflwyno'n llwyddiannus ledled Cymru.

Rwy'n llai eglur ynghylch bwriadau Llywodraeth Cymru o ran cefnogaeth ariannol gyson i'r rhai sy'n gadael gofal, ond rwy'n gobeithio y bydd hyn yn derbyn sylw yn y rheoliadau a'r codau ymarfer sy'n cael eu datblygu i gefnogi gweithrediad y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Byddaf yn sicrhau bod fy nhîm polisi yn craffu ar y rheoliadau a'r codau ymarfer er mwyn sicrhau nad yw'r mater pwysig hwn yn cael ei anghofio.

Roedd pobl ifanc wedi sôn wrthyf fi am eu dymuniad i gael fforwm genedlaethol lle gallen nhw gwrdd a rhannu profiadau. Yn "Ar Goll ar ôl Gofal" roeddwn i wedi cynnig bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda fy swyddfa i sefydlu fforwm Cymru gyfan ar gyfer plant a phobl ifanc oedd mewn gofal ac yn gadael gofal (gwelliant gwasanaeth 3).

Ym mis Gorffennaf 2012 daeth fy swyddfa â 50 o bobl ifanc ynghyd o bob rhan o Gymru a oedd wedi gadael gofal neu'n paratoi i adael gofal. Er i lawer o brofiadau cadarnhaol gael eu rhannu yn ystod y digwyddiad, dro ar ôl tro fe glywsom ni am ddiffyg cysondeb rhwng awdurdodau lleol wrth ddarparu gwasanaethau i PDG a'r rhai sy'n gadael gofal.

## AGGCC

### Rôl yr Ymgynghorydd Personol / Arolygiadau profiad bywyd

Nododd "Ar Goll ar ôl Gofal" ddiffyg eglurder ynghylch rôl yr ymgynghorydd personol a diffyg ymwbyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith pobl ifanc o'r pethau y dylent eu derbyn. Awgrymais i y dylai AGGCC gynnal adolygiad cenedlaethol o rôl yr ymgynghorydd personol, ac awgrymais hefyd gyfres o arolygiadau dirybudd o dimau gadael gofal er mwyn canolbwyntio ar brofiad bywyd plant oedd yn symud o ofal i annibyniaeth, gan amlgu arfer da, a nodi meysydd i'w gwella a'u datblygu (gwelliannau gwasanaeth 4 a 5).

Mae AGGCC wedi ymateb i'm hadroddiad ac wedi cydnabod, er gwaethaf cynnydd sylweddol yn narpariaeth y gwasanaeth ers Deddf Gadael Gofal 2000, ei bod hi'n bryd adolygu'r ddarpariaeth gyfredol o wasanaethau i bobl ifanc sy'n gadael gofal. Bu fy swyddfa'n cyfarfod â swyddogion AGGCC sydd wedi nodi y bydd PDG yn rhan o'u rhaglen waith thematig yn ystod y flwyddyn sy'n dod. Rwy'n falch bod AGGCC yn bwriadu canolbwyntio ar ystod o faterion yng nghyswllt PDG, a'u bod wedi fy ngwahodd i fod yn rhan o'r gwaith rhychwantu ar gyfer y rhaglen hon, a fydd yn digwydd yn hydref 2013.

Cynhaliwyd ail fforwm ym mis Gorffennaf eleni, ac roedd 72 o bobl ifanc yn cymryd rhan. Roedd 97 o bobl ifanc wedi dweud wrth y swyddfa y bydden nhw'n bresennol. Roedd y niferoedd rywfaint yn is na'r llynedd, gan fod canslo awyren wedi golygu na allai nifer o bobl ifanc o Ogledd Cymru ddod. Bydd dyddiadur fideo o'r digwyddiad, a luniwyd gan bobl ifanc o Gaerffili, ar gael i bob awdurdod lleol a'r rhai oedd yn bresennol ar y diwrnod, a'r gobaiith yw y bydd gwasanaethau'n medru ei ddefnyddio i hyrwyddo digwyddiad y flwyddyn nesaf. Hefyd defnyddir adborth y bobl ifanc oedd yno ar y diwrnod i ddylanwadu ar ddigwyddiad y flwyddyn nesaf. Rwyf am sicrhau bod y diwrnod hwn yn gyfle i blant sy'n derbyn gofal ledled Cymru gwrdd a rhannu profiadau gyda'i gilydd a chyda fy swyddfa, yn ogystal â rhoi cyfle iddyn nhw fwynhau diwrnod allan yn cael hwyl.

Mae rhoi cyfle i PDG a'r rhai sy'n gadael gofal o bob rhan o Gymru gwrdd a rhannu eu meddyliau yn rhoi cyfle i ni i gyd ddysgu ganddynt am eu profiad o ofal a ffyrdd o wella pethau yn y dyfodol.

# Casgliad

**Mae ymrwymiad amlwg ystod o sefydliadau i wella'r sefyllfa ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal wedi fy nghalonogi. Serch hynny, fyddwn i ddim am i neb feddwl bod yr holl faterion a nodais yn "Ar Goll ar ôl Gofal" wedi cael eu datrys.**

Rwy'n bwriadu parhau i wrando ar blant a phobl ifanc yn y system ofal, ac adrodd yn ôl i'r rhai sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau iddynt ynghylch beth sydd ganddynt i'w ddweud wrthyf fi. Rwyf am weithio gydag Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd, Llywodraeth Cymru, darparwyr eiriolaeth a gwasanaethau eraill lleol i barhau i wella'r canlyniadau ar gyfer y grŵp hwn o bobl ifanc, sy'n agored i niwed.

Rwy'n ymroddedig i weithio gydag AGGCC yng nghyswllt eu bwriad i arolygu Plant sy'n Derbyn Gofal er mwyn sicrhau bod y materion y mae plant a phobl ifanc wedi'u codi gyda mi yn derbyn sylw yn y rhaglen waith honno.

O'm rhan i, byddaf yn parhau i drefnu fforwm flynyddol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal ledled Cymru, ac yn defnyddio'r digwyddiad hwnnw i gasglu adborth gan blant a phobl ifanc am y materion maen nhw am i'r Llywodraeth a rhieni corfforaethol roi sylw iddynt, a byddaf yn sicrhau bod y negeseuon hynny'n cael eu clywed.

Bydd fy swyddfa'n parhau i weithio'n agos gyda Fforwm y Rhai sy'n Gadael Gofal a grwpiau eraill perthnasol o weithwyr proffesiynol, i helpu i sicrhau bod hawliau plant a phobl ifanc yn y system ofal yn cael eu cydnabod a'u parchu.

Er ei fod yn dda clywed am y cynnydd sy'n cael ei wneud, allwn ni ddim llaesu dwylo o ran gwasanaethau a chefnogaeth i bobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae dyletswydd arnom i helpu pobl ifanc sy'n gadael gofal i helpu i sicrhau eu dyfodol, ac i sicrhau'r cyfnod pontio gorau posib iddyn nhw o ofal i annibyniaeth.

**Keith Towler**  
**Comisiynydd Plant Cymru**



**0808 801 1000 / 80800\***  
**post@complantcymru.org.uk**

\* Tecstiwch ni am ddim (gan ddechrau eich neges â COM)



**@complantcymru**  
**www.complantcymru.org.uk**

Ysgrifennwch:

**Comisiynydd Plant Cymru**  
**Rhadbost RRGL XLYC BHGC**  
**Abertawe SA7 9FS**



